Pembrokeshire Public Services Board

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

**COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR PENFRO**
**Dydd Mawrth 25 Ionawr 2022 10.00am (Cyfarfod Microsoft Teams)**

**Yn bresennol:**

Tegryn Jones, Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (Cadeirydd)
Sue Leonard, Prif Swyddog, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (Is-gadeirydd) (o 11am)
Will Bramble, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Penfro (gadawodd am 11.15am)
Dr Steven Jones (SPJ), Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol, Cyngor Sir Penfro
Anna Bird, Pennaeth Datblygu Partneriaethau Strategol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Y Cynghorydd. Cris Tomos, Cyngor Sir Penfro
Iwan Thomas, Prif Weithredwr, PLANED
Yr Uwch-arolygydd Anthony Evans, Heddlu Dyfed Powys
Andrea Winterton, Rheolwr Gwasanaethau Morol, Gweithrediadau, Cyfoeth Naturiol Cymru
Claire Germain, Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau, Llywodraeth Cymru
Mydrian Harries, Pennaeth Atal ac Amddiffyn Corfforaethol , Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Y Cynghorydd Elwyn Williams, Cadeirydd Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru
Sue Denman, Gyda'n Gilydd dros Newid
David Evans, Coleg Sir Benfro
Jo McCarthy, Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Darren Mutter, Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Penfro
James White, Pennaeth Ymgysylltu, Perfformiad a Chymuned, Cyngor Sir Penfro
Y Cynghorydd. David Lloyd, Cyngor Sir Penfro
Ieuan Rees, Cyngor Sir Penfro

Cymorth/Ysgrifenyddiaeth

Nick Evans, Rheolwr Polisi a Phartneriaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Penfro
Lynne Richards, Swyddog Partneriaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Penfro
Carys Huntly, Cydlynydd Asesu Llesiant Rhanbarthol
Jemma Rees, Swyddog Cymorth Partneriaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Penfro
Amy Richmond-Jones, Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

**<u>Ymddiheuriadau</u>**

Dr Barry Walters, Pennaeth Coleg Sir Benfro
Anna Malloy, Porthladd Aberdaugleddau
Philip Kloer, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Christine Harley, Pennaeth Uned Cyflawni Lleol Heddlu Dyfed Powys, HMPPS
Gaynor Toft, Prif Gyfarwyddwr Tai, Cyngor Sir Penfro
Diane Lockley, Un Llais Cymru
Maria Battle, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

DRAFT

Rachel Moxey,  Pennaeth Datblygu Economaidd ac Adfywio, Cyngor Sir Penfro
Andy Jones, Prif Weithredwr Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau
Alison Perry, Cyfarwyddwr Comisiynu, Heddlu Dyfed Powys
Ros Jervis, Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Alyson Phillips,  Rheolwr Partneriaethau, yr Adran Gwaith a Phensiynau
Elaine Lorton,  Cyfarwyddwr Sir Benfro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dechreuodd y cyfarfod am 10.05am

## 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Cyflwynodd TJ nifer o gynrychiolwyr newydd i'r bwrdd:

- JM sydd yn cymryd lle RJ oherwydd salwch ar gyfer y dyfodol agos.
- Y Cynghorydd DLl a gododd hysbysiad o gynnig yn 2021 a ddechreuodd y gwaith ar Dlodi Plant sef un o’r eitemau ar yr agenda
- MH sydd wedi cymryd y rôl ar y bwrdd yn dilyn  ymddeoliad Kevin Jones

Derbynwyd ymddiheuriadau gan  y rhai a restrir uchod

## 2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf / Cofnod camau gweithredu

Cadeirydd Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru yw teitl EW bellach, a gofynnodd i hyn gael ei nodi yn y cofnodion
Cadarnahwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2021 yn gofnod cywir.

Cofnod Camau Gweithredu

Roedd y diweddariadau ar gamau a gytunwyd yn y cyfarfod diwethaf fel a ganlyn;

Mae Cam Gweithredu 1 yn parhau gyda diwedd y cam ymgynghoriad asesiad llesiant cyhoeddus ar 21 Chwefror 2022. Roedd partneriaid yn cael eu hannog i rannu'r tudalen Dweud eich Dweud i'w rhwydweithiau.

Mae Cam Gweithredu 2 wedi ei gwblhau a chafodd y gweithdy strategaeth addasu hinsawdd ei gynnal ar 20 Ionawr. Diolchodd AW i bawb oedd wedi mynychu a dywedodd y byddai’n cysylltu ag  unrhyw bartneriaid nad  oedd  wedi gallu bod yn bresennol. Mae cymorthfeydd yn canolbwyntio ar bedwar maes penodol yn y broses o gael eu trefnu, sef economi, seilwaith, amgylchedd, a chymunedau. Gwnaeth  AW gais i ddod o hyd i gynrychiolwyr lefel uwch ar gyfer y pum gweithdy olaf gan y byddai  trafodaeth  yn cael ei chynnal i ddod i benderfyniadau. Bydd  adroddiadau yn  cael eu llunio  ar ôl pob gweithdy ac ar gael ar gais.

Cam Gweithredu 3 a 4  - Dywedodd NE fod trafodaethau ar brosiect Sir Penfro 2040 yn parhau, ac esboniodd y  gallai adnoddau fod ar gael yn fewnol a thrwy  rwydweithiau Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro. Nid oedd unrhyw gymorth ar gael gan Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol ond cynigodd CG  gysylltu ag  Academi Cymru. Gofynnodd SPJ a oedd Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol ar gael a chadarnhaodd CG ei fod wedi cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr.

## 3. Tlodi yn Sir Benfro (Cyflwyniad gan Darren Mutter)

DRAFT

Cafodd hysbysiad o gynnig ei godi gan DLl yn 2021 yn sgil adroddiad yn datgan fod gan Sir Benfro'r gyfradd uchaf o dlodi plant yng Nghymru, a chafodd y mater ei drafod ar y pryd yn y fforwm bolisi. Ymunodd JW gyda DM. Mae JW yn goruchwylio dyraniad y grant plant yng Nghyngor Sir Penfro. Yn ystod y cyflwyniad, defnyddiwyd rhywfaint o ddata yn ymwneud â'r cyfnod cyn y pandemig ac felly mae'n bosibl bod y sefyllfa yn waeth na'r hyn a nodwyd. Mae'r ffigyrau diweddaraf yn dangos bod Sir Benfro yn y pedwerydd safle o ran tlodi plant yng Nghymru ond nid yw hyn yn arwydd bod y sefyllfa yn gwella, yn hytrach mae'r sefyllfa yn gwaethygu yn arafach o'i chymharu â siroedd eraill. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cyrraedd ei lefel uchaf erioed yn Sir Benfro ac ychwanegodd fod staff yn gweld bod plant yn byw mewn tlodi. Pwysleisiodd DM fod angen i'r holl wasanaethau gyfrannu at y gwaith hwn er mwyn mynd i'r afael â'r mater.

Ychwanegodd DLl, pan ddatgelwyd yr ystadegau ym mis Mai 2021, nad oedd yn medru cerdded i ffwrdd heb ddechrau gweithredu. Maes allweddol sydd yn cyfrannu at y lefel uchel hwn o dlodi yw tai fforddiadwy. Cytunodd MH a dywedodd fod cysylltiadau cryf rhwng tlodi a thanau mewn tai, er enghraifft oherwydd dulliau gwresogi ansafonol. Holodd MH a oedd pwyslais digon cryf yn cael ei roi ar drechu tlodi yn y WBA.

Dywedodd CT y byddai'r broblem yn mynd yn waeth oherwydd y cynnydd sydd ar fin digwydd ym mhris tanwydd a'r cynnydd mewn chwyddiant. Mae cyfle i weithio gyda'r rhwydwaith cymorth cymunedol i hyrwyddo unrhyw gymorth sydd ar gael, er enghraifft, Morrisons Hwlffordd yn cynnig £10 i ffwrdd o bris basged o fwyd sydd werth £20 i bobl sy'n cael trafferth cael deupen llinyn ynghyd.

Dywedodd SPJ fod y newidiadau dros y 40 mlynedd diwethaf wedi gweld siopau elusen a banciau bwyd yn cael eu sefydlu ar bwys swyddfeydd rheoli cyfoeth, a gofynnodd i DM a oedd unrhyw ddatblygiadau o ran y bid UBI. Dywedodd DM wrth y bwrdd fod y bid wedi bod yn aflwyddiannus. Cynigodd CG edrych i weld a oedd unrhyw ardaloedd gwledig wedi cael eu dewis ar gyfer cynllun peilot UBI. Dywedodd JMc fod lleihau anghydraddoldeb iechyd yn un o feysydd gwaith allweddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Awgrymodd IT y byddai'n gam pwysig iawn petai Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Penfro yn siarad â grŵp o bobl 16-24 oed sydd wedi byw mewn tlodi, o'r prosiect ieuenctid CWBR a ariennir gan gronfa'r loteri, a'u clywed yn disgrifio'r gwrthgyferbyniad llwyr o fyw yn y sir brydferthaf mewn amodau mor llwm.

Dywedodd JW fod y lwfans cynnal addysg yn £30 yr wythnos i ddysgwyr cymwys 15 mlynedd yn ôl ac nid yw wedi cynyddu ers hynny. Mae cynnydd wedi bod yn y swm sydd ar gael gan y grant plant ac ataliaeth ieuenctid ac mae newid wedi bod yn y cyfnod cyllido o 1 blwyddyn i 3 blynedd, sydd yn gam ymlaen.

Dywedodd WB fod angen datblygu cynllun yn awr i nodi cyfeiriad gwaith y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus, ac asesu lefel ymgysylltiad y sir a Llywodraeth Cymru. Mae angen i'r sector preifat, fel y cyflogwyr mawr a'r rhanddeiliaid allweddol, gymryd rhan hefyd oherwydd cwmpas eang y gwaith. Cynigodd CG gysylltu â chydweithwyr Llywodraeth Cymru er mwyn iddynt gyfrannu at y gwaith, ac ychwanegodd fod cyfarfod yn cael ei gynnal ym mis Chwefror i fynd i'r afael â phroblem y cynnydd yng nghostau byw, ac y gallai aelodau dderbyn gwahoddiad hefyd o bosibl.

Dywedodd DM fod rhestr ehangach o swyddogion wedi cael ei llunio a oedd yn gofyn i bartneriaid enwebu swyddog arweiniol i'w cynrychioli yn y cyfarfodydd, y disgwylir iddynt gael eu cynnal yn rheolaidd wrth i'r gwaith ddatblygu. Dywedodd AB fod defnyddio data lleol yn allweddol, er mwyn mapio'r ffordd ymlaen. Mae cyfle anferth yn yr WBA i greu

cynllun pum mlynedd a byddai hyn yn fan cychwyn arwyddocaol. Cytunodd WB ond dywedodd fod angen canolbwyntio'n benodol ar y gwaith hwn, ac efallai byddai ffurfio cynllun penodol sy'n cysylltu â'r WBP, a chynigodd fod y pwnc yn dod yn eitem sefydlog ar agenda'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus.

Cyflwynodd TJ grynodeb o'r camau a drafodwyd:

- Cynnwys Tlodi Plant fel eitem sefydlog ar agenda'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus
- Mae Tlodi Plant i gael ei gynnwys yn yr WBP yn ystod y datblygiad ar ôl yr WBA
- Mae aelodau'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus i enwebu swyddog arweiniol i gyfrannu i'r grŵp sirol cyfan.
- DM i arwain y prosiect
- Y cyflwyniad i gael ei gylchredeg i bartneriaid.

**4. Diweddariad Cydgynhyrchu Cymru (Nick Evans)**

Esboniodd NE fod y papur a gafodd ei ddosbarthu ym mhecyn yr agenda wedi dod o'r cynnig gwreiddiol i Rwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru ar gyfer cymorth a gafodd ei wrthod yn y lle cyntaf, ond mae'r cymorth bellach ar gael yn awr gan fod y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus llwyddiannus wedi gwrthod y cynnig. Mae NE yn edrych am gymeradwyaeth y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus i'r cynnig am gymorth a nodir yn y papur. Holodd SPJ ynglŷn â'r manylion llywodraethu a nodir yn yr adroddiad ar effaith a'r broses benderfyniadau, ac atebodd NE mai egwyddorion cyd-gynhyrchu yw bod yn rhaid i'r rhyngweithio fod yn ystyrlon, gan ymgynghori yn gyntaf cyn gweithredu. Ychwanegodd CH fod y cyhoedd a'r cyrff yn bartneriaid cyfartal yn unol â'r diffiniad o gyd-gynhyrchu.

Byddai'r cymorth a'r ffordd newydd o weithio yn berthnasol yn y lle cyntaf i brosiect peilot, ac awgrymodd AB y gallai'r gwaith ar dlodi plant fod yn ddarn o waith priodol. Gofynnodd TJ pam roedd y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus, a dderbyniodd y cymorth i ddechrau, wedi ei wrthod, ac atebodd NE fod diffyg adnoddau yn y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn ffactor.

Cymeradwyodd y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus dderbyn y cymorth.

**5. Cyflwyniad ar Gynllun Gyda'n Gilydd dros Newid (Sue Denman)**

Roed papur ar waith Gyda'n gilydd dros Newid wedi cael ei ddosbathu yn y pecyn agenda, a rhoddodd SD drosolwg o'r sefydliad, gan esbonio ei fod yn rhaglen trawstoriad wedi cael ei ddechrau gan Gofal Solfach gyda chyllid o'r gronfa loteri, yn gweithio'n agos gyda PAVS a PLANED i atgyfnerthu cymunedau drwy hwyluso eu cyfraniad i gynllunio a gwasanaethau o fewn yr ardal.
Mae'r grŵp yn awr yn edrych ar waith yn y dyfodol, yn lleol ac yn rhanbarthol, a rhoddwyd manylion pellach mewn cyflwyniad. Un maes datblygu allweddol yw adeiladu gallu drwy hidlo'r cyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru i grwpiau bach o fewn y gymuned sy'n gwneud gwaith ymchwil. Ychwanegodd SL fod pwyslais mawr ar ymchwil a gwerthuso mewn grantiau ar lefel lleol, gan ddefnyddio gwir brofiadau pobl i lywio'r gwaith. Dylai datblygiad TFC leihau'r angen i ddefnyddio ymgynghorwyr ar gyfer gwaith ymchwil mewn prosiectau drwy fuddsoddi ar lefel llawr gwlad. Roedd AB yn dymuno trafod gyda SD y posibilrwydd o gynhyrchu fframwaith cyd-gynhyrchu ar gyfer prosiectau lleol.

DRAFT

**6. Diweddariadau ar gynnydd y Cynllun Gweithredu**

Dywedodd TJ ei fod yn dod i ddiwedd y cylch WBP, a bod y prosiectau hefyd yn dod i ben.

Themâu Cymunedol

a) Creu cysylltiadau â grwpiau perthnasol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r ffrydiau gwaith ar thema cymunedau (Sue Leonard / Iwan Thomas)

Dywedodd SL nad oedd unrhyw ddiweddariadau pellach a bod y cytundebau cyllid eto i gael eu cadarnhau.

Dod yn Sir Carbon Niwtral

b) Fforwm Cyfalaf Naturiol Cynaliadwy Sir Benfro (Sue Leonard)

Dywedodd SL fod y prosiect wedi dod i stop ers i Ged Davies adael ei swydd, ond roedd yn gobeithio unwaith y byddai'r materion capasiti yn cael eu datrys, yna gallai'r prosiect fynd yn ei flaen a chael ei drafod yn y WBP nesaf.

Fframwaith Trawsnewid Recriwtio a Chyflogaeth

c) Codi ymwybyddiaeth o gynlluniau a mentrau i gefnogi cyflogaeth a hyfforddiant (Alyson Phillips)

Dywedodd DE fod Coleg Penfro yn dal i redeg Cynllun Kickstart a bod y biwro cyflogaeth a gafodd ei dreialu gan Goleg Penfro i gael ei ehangu ar draws y 12 coleg yng Nghymru. Mae'r lwfans dysgu personol ar gael o hyd.

Asesiad Risg Amgylcheddol a Newid yn yr Hinsawdd

d) Grŵp Newid yn yr Hinsawdd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrea Winterton)

Yn y cyfarfod diwethaf dywedodd AW wrth y bwrdd fod sgwrs wedi cael ei chynnal am hyfforddiant llythrennedd carbon, ac roedd hyn wedi arwain at yr angen i ddarparu eglurder o ran iaith a diffiniadau i sicrhau dealltwriaeth gyffredinol. Cynhaliwyd trafodaeth am y strategaeth addasu carbon, yr WBP, Sir Benfro 2040 a gwaith posibl yn y dyfodol.

e) Cydweithio â chydweithwyr o Bartneriaeth Natur Sir Benfro i gydlynu ymateb gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'r argyfwng natur (diweddariad ysgrifenedig gan Ant Rogers)

Ni ddarparwyd unrhyw ddiweddariad arall

**7. UFA**

Nid oedd unrhyw fater arall. Atgoffodd TJ y partneriaid i hyrwyddo'r ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer Asesiad Llesiant, sydd yn dod i ben ar 21 Chwefror.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45am.

DRAFT